

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Ynys Môn i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Mae Ynys Môn bellach yn bodloni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, yn bodloni 1 yn rhannol, ac yn methu â bodloni 1.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Ynys Môn 7 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 1.

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Ynys Môn wedi gweld rhagor o newidiadau i lefel ei berfformiad yn 2019/20, yn enwedig mewn perthynas â nifer y defnyddwyr, sydd wedi codi. Gellir priodoli'r newidiadau hyn yn rhannol i agor llyfrgell newydd Caergybi. Rhagwelir rhagor o welliannau yn y maes hwn os gellir ailsefydlu gwasanaethau yn dilyn cyfyngiadau Covid-19. Mae Ynys Môn wedi parhau i ganolbwyntio'n gryf ar wasanaethau plant a hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol y fframwaith ac wedi dangos pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ar gyfer eu nodau strategol. Mae'r gwasanaeth wedi nodi pwysigrwydd llenwi swyddi gwag yn y strwythur staffio a bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gadarn yn y tymor hir.

- Erbyn hyn mae Ynys Môn yn cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, yn cyflawni 1 yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 1.
- Nid yw Ynys Môn wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr eto, ond disgwyliad y byddant yn cael eu cynnal ym mis Chwefror 2020. Effeithiodd Covid-19 ar hyn a chynhaliwyd yr arolwg diwethaf yn Fframwaith 5 (2017).
- Mae'r lefelau defnyddio wedi cynyddu, o'u cymharu â phatrwm Cymru, a gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr; y benthycwyr gweithredol; aelodau o'r llyfrgell, benthyciadau llyfrau oedolion a phlant, a lawrlwythiadau electronig.
- Gwelwyd cynnydd yng nghyllideb ddeunyddiau Ynys Môn yn 2019/20, ond mae'r caffaeliadau fesul pen o'r boblogaeth (DA 9) yn parhau heb ei gyflawni oherwydd bod cyfyngiadau Covid-19 wedi effeithio ar bryniant llyfrau ym misoedd Chwefror a Mawrth.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi'r agenda ddigidol ac mae wedi cofnodi cynnydd yn y defnydd o'i gyfrifiaduron. Erbyn hyn Ynys Môn sydd â'r gyfradd ddefnyddio uchaf yng Nghymru.
- Rhoddwyd strwythur staffio newydd ar waith yn 2018/19 ac mae rhai swyddi'n wag o hyd. Mae Ynys Môn yn cofnodi gostyngiad bach pellach yn y lefelau staffio cyffredinol, ac nid yw'n cyflawni yr un o'r targedau staffio.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn

crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Erbyn hyn mae Ynys Môn yn cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, yn cyflawni 1 yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 1. Roedd arolwg defnyddwyr i fod i gael ei gynnal ym mis Chwefror 2020; ym mis Chwefror 2017 y cynhaliwyd yr arolwg diwethaf. Fodd bynnag, bu'n rhaid gohirio'r arolwg oherwydd Covid-19. Mae Ynys Môn yn un o ddau awdurdod yn unig sydd wedi methu â chynnal yr arolygon oedolion a phlant drwy gydol y fframwaith, ac mae hyn yn siomedig gan fod ymgynghori ag aelodau yn hanfodol er mwyn darparu sail ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol. O ganlyniad, nid yw HG 11 yn cael ei chyflawni. Fel yn 2018/19, er bod Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 wedi'i sefydlu, nid yw ar gael yn rhwydd ar-lein i'r cyhoedd, ac o ganlyniad, mae HG 12 yn parhau i gael ei chyflawni'n rhannol. Mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda mewn meysydd eraill y mae'r hawliau'n ymwneud â hwy.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ac roedd un ohonynt yn cynnwys targed. O'r naw dangosydd sydd ar ôl, mae Ynys Môn yn cyflawni 7 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac wedi methu â chyflawni 1 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	√	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	√	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	√	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	√	Cyflawni'n llawn

Mae Ynys Môn wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, ac ni welwyd newid arwyddocaol er 2018/19.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn

cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Ni chynhaliodd Ynys Môn arolwg defnyddwyr yn ystod 2019/20 nac yn ystod y fframwaith, ac mae'n un o 2 awdurdod yn unig sydd heb wneud hynny. Cafodd yr arolwg a oedd i fod i gael ei gynnal ym mis Chwefror ei ohirio oherwydd Covid-19. Cynhaliwyd yr arolwg llawn blaenorol ym mis Chwefror 2017.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	96%	=3/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	94%	=4/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Ynys Môn dair astudiaeth achos o'r fath:

- Llyfrgell Caergybi – effaith y llyfrgell newydd ar bobl ifanc yn y gymuned. Mae hyn yn dystiolaeth o bwysigrwydd y llyfrgell newydd yng Nghaergybi a sut y mae wedi galluogi un ferch ifanc yn ei harddegau i astudio ar gyfer ei harholiadau Safon Uwch mewn amgylchedd tawel. Mae'n disgrifio'r llyfrgell fel amgylchedd gwych i astudio, ac oherwydd ei bod hi'n defnyddio'r llyfrgell mae aelodau eraill o'i theulu wedi dechrau benthyca adnoddau.
- Grŵp cefnogi bwydo ar y fron – grŵp sy'n cyfarfod unwaith bob pythefnos yn llyfrgell Caergybi. Amlinelliad o bwysigrwydd y llyfrgell i'r gymuned; yn pwysleisio'r rhwydwaith cefnogi y mae'r grŵp yn ei ddarparu a'r adnoddau sydd ar gael yn y llyfrgell ar bynciau fel magu plant, coginio ac iechyd a llesiant, sy'n ddefnyddiol i'r grŵp yn ystod eu cyfarfodydd bob pythefnos.
- Cynhwysiant Cymdeithasol – Datganiadau effaith yn dangos gwerth a phwysigrwydd y gwasanaeth llyfrgell i sectorau o'r gymuned sydd mewn angen; mae gwraig sy'n gofalu am ei gŵr, sydd â dementia, yn disgrifio sut y mae'r llyfrau a fenthycodd wedi ei helpu i gysylltu â'i gŵr, ac mae myfyrwraig yn disgrifio pwysigrwydd y llyfrgell fel noddfa drwy gydol ei phlentyndod ac yn ystod ei hastudiaethau.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Ynys Môn ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 6]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	dd/b	25%	75%	94%	dd/b	
c) iechyd a lles	dd/b	38%	69%	96%	dd/b	
d) lle diogel a chroesawgar	dd/b	90%	96%	100%	dd/b	
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid	dd/b				[Fframwaith 6]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	dd/b	78%	91%	99%	dd/b	
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	dd/b	88%	97%	100%	dd/b	
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	dd/b	65%	85%	99%	dd/b	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	dd/b	85%	96%	100%	dd/b	
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b	8.0	9.1	9.5		
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,094	8/22	2429	3987	6874	3,946
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,796	2/22	239	909	2131	1,708
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	114	17/22	78	145	244	107
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²	853	7/22	311	680	1468	976
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	9	10/22	4	9	14	10
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	64%	1/22	14%	30%	64%	57%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£12,064	10/22	£7,260	£12,448	£23,333	£12,779
b) % ar staff	55%	16/22	48%	61%	76%	54%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	=13/22	5%	13%	22%	13%
% ar offer ac adeiladau	3%	=15/22	0%	8%	28%	3%
% ar gostau gweithredol eraill	30%	4/22	1%	18%	35%	31%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£1,627	5/22	£0	£1,567	£13,027	£1,734
DA 16 – Oriau agor ³						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/22	0.00%	1.07%	5.41%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ²

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Methodd Ynys Môn â chynnal yr arolygon defnyddwyr, a oedd i fod i gael eu cynnal ddechrau 2020. Effeithiodd Covid-19 ar hyn a chynhaliwyd yr arolwg diwethaf yn Fframwaith 5 (2017). Mae datblygiad unigol yn parhau i gael ei gefnogi'n dda ac mae pob man gwasanaeth yn darparu gweithgareddau yn y maes hwn. Mae perfformiad wedi parhau'n gryf o ran darparu iechyd a llesiant. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i'r cynllun 'Llyfrau ar Bresgripsiwn' newydd (Darllen yn Well) ac mae gan y llyfrgell newydd yng Nghaergybi ardal iechyd a llesiant ddynodedig. Mae cau llyfrgell Cemaes wedi effeithio ar y ddarpariaeth clybiau llyfrau. Er hyn, mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi nifer o glybiau llyfrau lleol ac mae pob man gwasanaeth yn darparu gwybodaeth am iechyd.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae rhagor o newidiadau i wasanaethau wedi arwain at ostyngiad bach yng nghanran y cartrefi sydd heb fod yn bell o fan gwasanaeth llyfrgell. Er hyn, mae Ynys Môn yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at bwyntiau gwasanaeth. Mae lefelau defnyddio wedi cynyddu, a gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr; benthycwyr gweithredol; aelodau llyfrgell a benthyciadau llyfrau oedolion a phlant. Mae hyn yn wahanol i'r duedd gyffredinol yng Nghymru. Gellir priodoli'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn rhannol i agor y llyfrgell newydd yng Nghaergybi. Er hyn, mae nifer y benthycwyr a'r aelodau fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Mae lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu unwaith eto, ac mae'r patrwm hwn i'w weld ledled Cymru. Mae nifer y lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu 136% er 2017/18.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Gwelwyd cynnydd yng nghyllideb deunyddiau Ynys Môn yn 2019/20, ond mae'r targed caffael fesul pen o'r boblogaeth (DA 9) yn parhau heb ei gyflawni. Mae Ynys Môn yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau sydd heb gyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod Covid-19 wedi effeithio ar brynu adnoddau a byddai'r targed wedi'i gyflawni pe bai modd cadw at y cynlluniau. Mae gwariant ar adnoddau i blant wedi gostwng ychydig, ond mae'n parhau'n flaenoriaeth gref i'r gwasanaeth. Gwelwyd gostyngiad o 18.5% mewn gwariant ar ddeunydd Cymraeg ers blwyddyn gyntaf y fframwaith, ynghyd â gostyngiad mewn benthyciadau Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth. Er hyn, mae gwariant yn y maes hwn yn parhau'n uwch na'r canolrif yng Nghymru, ac mae benthyciadau Cymraeg fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn uwch na'r canolrif. Mae'r ddarpariaeth gyfrifiaduron yn parhau'n uchel ac mae'r lefelau defnyddio wedi cynyddu (57% i 64%). Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfleusterau TG gwell sydd yn

llyfrgell Caergybi. Mae'r defnydd yn uwch nag yn unman arall yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Rhoddwyd strwythur staffio newydd ar waith yn 2018/19, ac yn anffodus mae rhai swyddi'n parhau'n wag. Mae Ynys Môn yn cofnodi gostyngiad bach unwaith eto yn y lefelau staffio cyffredinol, ac nid yw'n cyflawni yr un o'r targedau staffio. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod ymddeoliad staff hefyd wedi effeithio ar y ddau darged, ond dylai'r targed ar gyfer lefelau staff proffesiynol gael ei gyflawni yn 2021 os llwyddir i lenwi'r swydd wag. Mae perfformiad ar gyfer cyfanswm y staff a'r staff cymwysedig yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli o hyd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng er 2018/19, ac mae wedi gostwng 4.8% er 2017/18. Er hyn, mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n uwch na'r canolrif. Gwelwyd gostyngiad o 19% mewn oriau agor blynyddol cyfanredol er 2017/18. Gellir priodoli hyn yn rhannol i gau mannau gwasanaeth drwy gydol y chweched fframwaith. Er hyn, mae dwy lyfrgell sy'n cael eu rheoli gan y gymuned yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth, ac maent wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn. Mae'r targed ar gyfer oriau agor yn cael ei gyflawni, ond mae oriau agor cyfanredol fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif yng Nghymru erbyn hyn. Ni fu unrhyw ymyriadau heb eu cynllunio ar y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae Ynys Môn yn adrodd ar nifer o themâu, gan gynnwys llythrennedd; adfywio cymunedau; datblygu'r gweithlu; cynhwysiant digidol; yr iaith Gymraeg ac iechyd a llesiant. Mae agor llyfrgell Caergybi yn adeilad Neuadd y Farchnad, sydd wedi cael ei adnewyddu, wedi cyfrannu llawer tuag at adfywiad economaidd cyffredinol tref Caergybi. Mae gweithio gyda phartneriaid addysg oedolion hefyd yn sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ddatblygu sgiliau yn y gymuned, yn enwedig ym meysydd llythrennedd digidol. Partneriaeth lwyddiannus arall yw'r gwasanaeth llyfrgell ysgolion, sy'n cefnogi plant ac athrawon ysgolion cynradd, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddarllen a llythrennedd. Mae'r casgliad hanes lleol helaeth yn llyfrgell Ynys Môn hefyd yn cyfrannu tuag at thema bwysig hunaniaeth ddiwylliannol yng Nghymru.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, nodir mai blaenoriaeth y gwasanaeth yw llenwi'r swyddi gwag yn y strwythur staffio. Mae hyn yn hanfodol er mwyn gwella gwytnwch y gwasanaeth. Fel pob gwasanaeth yng Nghymru, mae'r blaenoriaethau uniongyrchol yn ymwneud ag adferiad yn dilyn Covid-19.

Agorwyd llyfrgell newydd yng Nghaergybi ym mis Medi 2019. Oherwydd ei lleoliad yng nghanol y dref, ac effeithiau Covid-19, mae'r gwasanaeth yn nodi bod y llyfrgell wedi bod yn dawel iawn. Mae'r gwasanaeth yn nodi y bydd angen adennill hyder y cyhoedd ac ailgyflwyno gweithgareddau er mwyn annog pobl i ymweld â'r llyfrgell unwaith eto. Mae'r

gwasanaeth hefyd yn nodi ei fwriad i gyflwyno model gwirfoddolwyr ar gyfer llyfrgelloedd cymunedol Biwmares a Rhosneigr. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu parhau i ddilyn strategaeth llyfrgell 2019-22, gan addasu i flaenoriaethau ac arferion newydd Covid-19.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Ynys Môn wedi gweld rhagor o newidiadau i lefel ei berfformiad yn 2019/20, yn enwedig mewn perthynas â nifer y defnyddwyr, sydd wedi codi. Gellir priodoli'r newidiadau hyn yn rhannol i agor llyfrgell newydd Caergybi. Rhagwelir rhagor o welliannau yn y maes hwn os gellir ailsefydlu gwasanaethau yn dilyn cyfyngiadau Covid-19. Mae Ynys Môn wedi parhau i ganolbwyntio'n gryf ar wasanaethau plant a hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol y fframwaith, ac wedi dangos pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ar gyfer eu nodau strategol. Mae'r gwasanaeth wedi nodi pwysigrwydd llenwi swyddi gwag yn y strwythur staffio, a bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gadarn yn y tymor hir.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

ⁱⁱⁱ Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

^{iv} Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.